

A oes angen i mi gofrestru Clwb Gwyliau gydag Arolygiaeth Gofal Cymru?

Gweithgareddau megis Clybiau Gwyliau i blant dan 12 oed angen cael ei gofrestru yn ffurfiol os ydynt yn cyrraedd meini prawf **gofal plant rheoledig / gofal dydd**.

Yn gyffredinol, nid oes angen cofrestru gweithgareddau ar gyfer plant **dros 12 oed** na gweithgareddau ar gyfer plant dan 12 oed a **ddarperir am lai na 2 awr y dydd** neu **lai na 6 diwrnod y flwyddyn**.

Fodd bynnag, dylech gysylltu ag [Arolygiaeth Gofal Cymru](#) i roi gwybod iddynt am y gweithgaredd i sicrhau nad oes angen cofrestru eich clwb. Mae'n drosedd i beidio cofrestru gweithgareddau perthnasol.

Canllawiau Cyffredinol

1. Nid oes gofyniad i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru os ydych yn darparu clwb gofal dydd/gwyliau i blant dros 12 oed.
2. I blant o dan 12 noder:
 - a. Nid yw person yn darparu gofal dydd os nad yw'r cyfnod neu gyfanswm y cyfnodau mewn unrhyw ddiwrnod pan fydd plant yn derbyn gofal mewn safle yn fwy na dwy awr. Mae hyn yn golygu y bydd plant yn dod ar yr un amser ac yn gadael ar yr un pryd.
 - b. Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'r gofal yn cael ei ddarparu gan y person hwnnw yn y safle o dan sylw ar lai na 6 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr ac mae'r person wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig cyn y tro cyntaf y defnyddir y safle o dan sylw yn flwyddyn honno.
3. Fodd bynnag, os ydych yn cynnig dau neu lai o'r gweithgareddau canlynol, nid oes cyfyngiad ar hyd yr amser y byddwch yn gweithredu. Dyma'r gweithgareddau:
 - i. Chwaraeon
 - ii. Celfyddydau perfformio
 - iii. Celf a Chrefft
 - iv. Cymorth astudio neu waith cartref yr ysgol
 - v. Astudiaeth grefyddol neu ddiwylliannol

Yr eithriad i hyn yw os yw'r plant o dan 5 oed yna ni allant fynychu am fwy na 4 awr y dydd.

Os ydych yn cynnig mwy na dau o'r uchod, yna mae angen i chi sicrhau eich bod yn gweithredu am ddim mwy na 2 awr y dydd neu'n gweithredu llai na 6 diwrnod mewn blwyddyn galendr, neu fel arall bydd angen i chi gofrestru eich gweithgaredd gyda AGC.

COFIWCH: os ydych yn cynnig clwb gwyliau, cysylltwch â'r AGC o leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw er mwyn rhoi gwybod iddynt beth rydych yn ei wneud.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir](#) blant hyd at 12 oed.

Mae'r ddogfen lawn ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru

<https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf>

[cysylltwch a AGC](#) ☎ 03007900126 ✉ ciwregistration@gov.wales am fwy o wybodaeth